# Ynglŷn â'r Cymwysterau Sylfaen Cyffredino mewn Cymraeg

Mae'r cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad Cymraeg wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Lefel Mynediad 1 i Lefel Mynediad 3, gan ddarparu llwybr cefnogol a chynhwysol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu hanfodol ar gyfer bywyd pob dydd, dysgu a byd gwaith.

Mae'r cymhwyster hwn yn grymuso dysgwyr i fagu hyder a chymhwysedd wrth ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, gyda phwyslais cryf ar berthnasedd, hygyrchedd a chymhwyso at gyd-destunau bywyd go iawn.

# Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed sy'n gweithio ar Lefel Mynediad yn y pwnc hwn.

Bydd yn datblygu ymhellach y ddealltwriaeth gysyniadol y mae dysgwyr wedi'i meithrin drwy eu haddysg Cwricwlwm i Gymru rhwng 3 ac 14 oed. Mae hefyd yn ymwneud â'r pedwar diben a'r egwyddorion cynnydd ac yn eu cefnogi.

Bydd y cymhwyster yn gweithredu fel sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudio TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg drwy ganolbwyntio ar ddealltwriaeth a sgiliau tebyg.

# Beth mae'r cymhwyster hwn yn ei gynnwys?

| Uned | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn: |
|---|---|
| 1. Darllen ac Ysgrifennu | • ·datblygu dealltwriaeth o ddeunydd darllen mewn cyd-destunau pob dydd a chyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith<br>• datblygu ymwybyddiaeth o'r defnydd o iaith i gyfathrebu â gwahanol gynulleidfaoedd. |
| 2. Ymateb i Destunau | • datblygu eu hymatebion i destun<br>• ysgrifennu'n greadigol ac yn llawn dychymyg<br>• datblygu eu sgiliau trawsieithu |
| 3. Llafaredd | • datblygu eu sgiliau llafar drwy gyflwyniad llafar unigol a thrafodaeth grŵp<br>• datblygu eu gallu i ryngweithio ac i ymateb i eraill. |

# Crynodeb o'r Asesu

| Uned | Math |
|---|---|
| 1 | **Profion Testun – gall canolfannau ddewis fersiynau ar bapur neu ar sgrin (wedi'u marcio gan CBAC) o fewn cyfnod o bedair wythnos.**<br><br>**1 awr (2 x 30 muned)**<br>**30 Marc - 30% o'r Cymhwyster**<br><br>Dau brawf testun:<br><br>1. Darllen – dangos dealltwriaeth o dri detholiad, gan gynnwys un detholiad parhaus.<br><br>2. Ysgrifennu – cwblhau un dasg estynedig mewn fformat penodol. |
| 2 | **Ymateb i destunau – asesiad ysgrifenedig (wedi'i farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC).**<br><br>**Hyblyg**<br>**40 Marc - 40% o'r Cymhwyster**<br><br>Dwy dasg:<br><br>1. Ymateb yn greadigol i destun<br><br>2. Tasg trawsieithu. |

DRAFFT

